EDC-07-00 (cofnodion drafft)

**Pwyllgor Datblygu Economaidd**

**Dyddiad:** 29 Mawrth 2000

**Amser:** 9am -1pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgor 1, Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| **Aelodau** | (Etholaeth) |
| Val Feld (Cadeirydd) | Dwyrain Abertawe |
| Rhodri Morgan (Ysgrifennydd y Cynulliad) | Gorllewin Caerdydd |
| Alun Cairns | De Orllewin Cymru |
| Ron Davies | Caerffili |
| Michael German | De Ddwyrain Cymru |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Christine Chapman | Cwm Cynon (yn eilyddio i Ann Jones) |
| Helen Mary Jones | Llanelli |
| Phil Williams | De Ddwyrain Cymru |
| **Swyddogion** | (Adran) |
| Derek Jones | Uwch Gyfarwyddwr, Materion Economaidd |
| Michael Cochlin | Cyfarwyddwr, Grp Datblygu Economaidd |
| Steve Phillips | Pennaeth, Adran Datblygu Rhanbarthol |
| Ron Loveland | Pennaeth, Adran Cystadleuaeth a Rhwydweithiau |
| Gerry Quarrell | Pennaeth, Cangen Polisi Cwmnïau Bychain |
| Chris Johnes | Adran Materion Ewropeaidd |
| John Clarke | Prif Weithredwr, Swyddfa Gyllid Ewropeaidd Cymru |
| Damien O’Brien | Adran Materion Ewropeaidd |

**Cyfranwyr Allanol**

**Grp Llywio Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth (Eitem 4)**:

David Latham Cadeirydd y Grp Llywio

Hywel Evans

Iain Willox

Lorraine Beard

**Comisiwn Ewropeaidd:**

Graham Meadows Cyfarwyddwr Rhanbarthol, DG Rhanbarthol

Philip Owen

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Helen Usher | Clerc |
| Jo Trott | Dirprwy Glerc |
| Joanne Glenn | Dirprwy Glerc |

Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Ann Jones. Roedd Christine Chapman yn bresennol ar ei rhan.

**Eitem 1: Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan atgoffa aelodau a chyfranwyr bod croeso iddynt siarad yn Gymraeg neu yn Saesneg. Eglurodd fod Graham Meadows o'r Comisiwn Ewropeaidd i fod yn y cyfarfod am 10.45am, ond bod ei awyren o Frwsel yn hwyr. Oherwydd hynny byddai'n ymuno â'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth sylweddol ar faterion yn ymwneud â Chyllid Strwythurol (Eitem 5). Er mwyn manteisio'n llawn ar ei ymweliad, dywedodd aelodau y byddent yn fodlon aros wedi 12.30pm.

10. Achubodd Phil Williams ar y cyfle i egluro pwynt. Wrth iddo gyflwyno ei bapur ar lefelau cyllid ar gyfer blaenoriaethau Amcan 1 yn y Pwyllgor ar 27 Mawrth, ei fwriad oedd gwneud cyfraniad cadarnhaol at waith y Pwyllgor trwy egluro unrhyw ddryswch a achoswyd gan y papurau. Roedd y rhain yn cynnwys 3 gwahanol fynegai cynyddu, 2 wahanol gyfradd gyfnewid a gwahanol broffiliau amser. Mynegodd bryder ynglþn â'r ffordd y derbyniwyd hyn gan y Cadeirydd, a chan Ysgrifennydd y Cynulliad yn y Sesiwn Llawn. Cydnabu'r Cadeirydd y

pwyntiau a wnaed a dywedodd ei bod yn bwysig i’r Pwyllgor sefydlu protocol i aelodau sy’n cyflwyno papurau. Cytunodd i godi’r mater yng nghyfarfod nesaf y Panel Cadeiryddion. Roedd y Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Cynulliad yn cydnabod bod Phil Williams yn dymuno egluro’r materion cyllid er lles y Pwyllgor.

**[Cam Gweithredu: Cadeirydd]**

**Eitem 2: Cofnodion Cyfarfod 15 Mawrth**

2.1 Derbyniwyd cofnodion 15 Mawrth.

**2.2 Camau Gweithredu heb eu cyflawni**

- Codwyd y cwestiwn canlynol, sef at ba ddiben y disgwylid i Gyngor Sir Caerdydd ddefnyddio’r gyllideb "adfywio arall". Mewn ymateb i’r cwestiwn hwn, eglurodd Ysgrifennydd y Cynulliad y gallai’r Cynulliad ddylanwadu ar y *mathau* o brosiectau, er na allai nodi pa brosiectau yn union y gellid eu hariannu. Addawodd ddarparu’r papur a nodwyd ym mhwynt gweithredu 8 cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor. Byddai’r papur hwn hefyd yn cynnwys mater y ‘disgownt’ £2m oddi ar werthiant safle Ferry Road. **[Cam Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

- Mewn ymateb i ymholiadau penodol yngln ag amseriad a pherchenogaeth y penderfyniadau polisi allweddol yngln â Bae Caerdydd, cytunwyd y byddai Alun Cairns yn darparu manylion ysgrifenedig o’i bryderon i’r Cadeirydd.

**[Cam Gweithredu: Alun Cairns]**

- Mewn perthynas â phwynt gweithredu 15: Eglurodd Phil Williams fod y papur dan sylw wedi’i gyhoeddi gan y Gweithgor ac nid gan Siambr Cymru, fel a ddywedwyd yn wreiddiol. **[Cam Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor]**

- Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cynulliad nad oedd aelodau wedi derbyn arweiniad strategol drafft eto mewn perthynas â Bwrdd Croeso Cymru.

- Roedd y cwestiwn o ddarparu gwybodaeth i’r Pwyllgor yn cefnogi penderfyniad y WDA ar flaenoriaethau (pwynt gweithredu 22), yn cael ei ystyried o hyd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i sicrhau y byddai cymaint o wybodaeth bellach ag sy’n bosibl ar gael heb dorri amodau cyfrinachedd masnachol.

**[Cam Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad]**

**Eitem 3: Adroddiad Ysgrifennydd y Cynulliad**

3.1 Dechreuodd Ysgrifennydd y Cynulliad trwy adrodd ar y sefyllfa o ran cais RSA gan British Aerospace am **xxxxxx**, gan bwysleisio'r angen i barchu cyfrinachedd. Esboniodd fod amseriad ei gyfarfod arfaethedig gydag Ysgrifennydd Gwladol Masnach a Diwydiant, Stephen Byers, yn gyd-ddigwyddiad. Yn ogystal, eglurodd nad oedd y WDA wedi bod yn ddibynnol ar y DTI am ei benderfyniad, ond am resymau technegol, nad oedd yn bosibl ystyried cais am RSA heb gael gwybod telerau cynnig Buddsoddiad Lansio Ad-daladwy yn gyntaf. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod y penderfyniad yn anodd a'i fod yn seiliedig ar gyngor Bwrdd Ymgynghorol Datblygiad Diwydiannol Cymru. Mewn ymateb i'r cwestiwn a oedd yn ystyried cynnig dewisiadau eraill i RSA, dywedodd Ysgrifennydd y Cynulliad nad oedd yn diystyru dim ar hyn o bryd ac y byddai'n cwrdd â chyflogwyr ac undebau llafur i drafod opsiynau. Croesawyd y sylwadau hyn. Cytunwyd y dylai'r Pwyllgor ddychwelyd at y papur ar RSA, a gyflwynwyd ar 13 Hydref 1999, er mwyn ystyried y broses RSA. **[Cam gweithredu: Cadeirydd a Chlerc]**

3.2 Croesawodd Ysgrifennydd y Cynulliad y newyddion bod BT yn creu 800 o swyddi newydd yn Nantgarw trwy sefydlu canolfan alwadau newydd, a bod A&J Enterprises yn creu 125 o swyddi newydd yn Y Drenewydd, yn gwneud beiciau ar gyfer y farchnad Ewropeaidd sy'n tyfu.

3.3 Ni chroesawyd y newyddion bod 300 o swyddi yn cael eu colli yn DHD Engineering yn Wrecsam, a oedd wedi mynd i law'r derbynnydd gweinyddol; roedd 190 o ddiswyddiadau wrth i Marks & Spencer yng Nghaerdydd gau eu canolfan ddosbarthu ym Mhentwyn; roedd Chartered Trust hefyd wedi cyhoeddi rhyw 80 o ddiswyddiadau, yng Nghaerdydd yn bennaf; ac roedd Celtic Energy wedi gwneud 50 o ddiswyddiadau.

3.4 Ynglþn â Rover hysbysodd Ysgrifennydd y Cynulliad aelodau y byddai'n trafod Cynulliad ar y Tasglu a sefydlwyd yn dilyn cyhoeddiad Rover gyda Stephen Byres. Roedd yn ymwybodol bod y Tasglu eisoes wedi nodi 98 cyflenwr haen gyntaf i Rover/BMW, ac roedd rhyw bum deg y cant ohonynt yng Nghymru. Byddai swyddogion yn cwrdd â Fforwm Modurol Cymru y diwrnod canlynol i asesu goblygiadau'r penderfyniad i Gymru ymhellach. Cytunodd aelodau fod y ffigwr hwn yn destun pryder. Rhoddwyd Krupps yn Llanelli fel enghraifft o gwmni a oedd wedi ailgyfeirio i ryw raddau ond a oedd erbyn hyn yn ystyried diswyddiadau. Nodwyd yr angen i swyddogion siarad yn frys â chwmnïau megis Krupps. Ymrwymodd Ysgrifennydd y Cynulliad i wneud ei orau glas dros gwmnïau a effeithiwyd gan benderfyniad BMW, a chafodd y sylwadau hyn eu croesawu.

10. Gofynnodd y Cadeirydd i Ysgrifennydd y Cynulliad godi'r cwestiwn o

drafodaethau ar y Map Ardaloedd Difreintiedig gyda Stephen Byers. Cytunwyd y byddai aelodau'n hysbysu'r Cadeirydd neu'r Clerc pe byddent yn dymuno trafod y Cytundeb Dwyochrog gyda'r DTI yn fwy manwl.

**[Cam gweithredu: Aelodau]**

**Eitem 4: Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth**

4.1 Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem, gan groesawu aelodau o'r Grp Llywio Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth i'r cyfarfod a diolch i'r grp am ei waith yn cynhyrchu'r Cynllun. Dywedodd wrth aelodau mai pwrpas yr eitem oedd ystyried y Cynllun yn fanwl, yng nghyd-destun y Cyllid Strwythurol ac adolygiad y Pwyllgor o ddatblygiad a chefnogaeth fusnes. Llongyfarchodd y Cynulliad Brifysgol Morgannwg ar ei llwyddiant yn lansio'r radd 'rithwir' gyntaf mewn entreprenueriaeth ac wrth sicrhau nawdd gan Hewlett Packard a Virgin. Gwahoddodd y Cadeirydd David Latham, Cadeirydd y grp llywio, i gyflwyno'r Cynllun. Yn ystod ei gyflwyniad gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Diolchodd David Latham i weddill y grp llywio o ugain person, a oedd wedi cydweithio am y flwyddyn ddiwethaf i gynhyrchu'r adroddiad. Roedd y grp wedi dod i'r casgliad ei bod yn hanfodol datblygu strategaeth cyn iddynt allu rhoi cynllun gweithredu manwl yn ei le. Roedd angen nodi'r hyn a oedd eisoes yn digwydd yng Nghymru i gefnogi'r chwe amcan, yn ogystal â syniadau ar gyfer y dyfodol, a chofnodwyd hyn yn yr Atodiad.

- Roedd galw am y Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth ddwy flynedd yn ôl gan 'Pathway to Prosperity.' O ganlyniad i waith ymgynghorol y grp llywio, dewiswyd Prifysgol Morgannwg fel 'Coleg Menter', un o'r rhai cyntaf o'i fath yn y byd, a fyddai'n galluogi pobl ifanc i ennill gradd mewn entrepreneuriaeth trwy'r Rhyngrwyd.

- Credai'r grp llywio fod entrepreneuriaeth yn hanfodol i Gymru ffynnu yn y dyfodol. Roedd yr economïau mwyaf llwyddiannus yn y byd heddiw yn entrepreneuraidd iawn ac roedd Cymru ar ei hôl hi. Y rheswm am hyn oedd diffyg strategaeth entrepreneuraidd, methiant o ran gweld cyfleoedd i gychwyn busnesau, a diffyg anogaeth ar gyfer ymddygiad entrepreneuraidd. Roedd addysg a hyfforddiant menter yn gyfyng, roedd cyllid ar gyfer cefnogi busnes ar gael yn y tymor byr yn unig, roedd gwasanaethau cynnal busnes yn ddarniog gyda chynnwys entrepreneuraidd cyfyngedig ac nid oedd effaith mentrau cynnal busnes yn cael eu monitro yn gyson.

- Er mwyn ymdrin â'r materion hyn roedd angen bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd a manteision entrepreneuriaeth, roedd angen mwy o fusnesau cynaliadwy gyda photensial i dyfu ymhellach ac roedd angen cynyddu nifer y busnesau a allai dyfu. Roedd y cynllun gweithredu yn cynnwys chwe strategaeth allweddol a fyddai'n bodloni'r anghenion hyn. Nid hwn fyddai'r ateb llawn gan fod diwylliant newidiol yn sialens dymor hir. Roedd angen dulliau eraill o hyfforddi, cefnogaeth i ddechrau busnesau a darpariaeth cyllid datblygu.

- Byddai angen cyllid arwyddocaol ond yn gyfnewid am hyn credid y byddai'r cynllun

gweithredu Entrepreneuriaeth yn hwb mawr i greu swyddi, gan gynhyrchu cyfanswm o 53,000 o swyddi rhwng 2000-2006.

- Gofynnodd David Latham i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Cynllun a'i amserlen a defnyddio'u dylanwad fel aelodau o'r pwyllgor monitro i sicrhau bod y Cynllun yn arwain Amcan 1, 2 a 3. Dylai'r agwedd hon sicrhau bod y cyfleoedd o fewn y Cynllun yn cael eu defnyddio mewn modd integredig yn hytrach na rhannu'r Strategaeth yn nifer o gynlluniau digyswllt.

10. Diolchodd y Cadeirydd i David Latham am ei gyflwyniad ac fe agorodd y drafodaeth. Gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Cydnabuwyd yr angen am newid diwylliannol. Roedd gan entrepreneuriaeth enw drwg. Ond gallai cyflawni newid mewn diwylliant fod yn un o'r syniadau mawrion a allai arwain at y newid cam sydd ei angen er mwyn cyflawni targedau'r Strategaeth Ddatblygu Economaidd Genedlaethol.

- Mewn ymateb i bryder yngln â'r ffigwr £34m i'w ddarparu a nodwyd yn y cynllun ynghyd ag absenoldeb costio manwl, esboniwyd mai hwn oedd y ffigwr a nodwyd yn yr SPD drafft ym mis Hydref, pan roddwyd y Cynllun at ei gilydd. Cydnabuwyd bod y sefyllfa wedi datblygu ers hynny ac nad oedd gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r ffigwr £34m, ond yn syml yr egwyddorion a fabwysiadwyd yn y Cynllun. Awgrymwyd y dylai costau yn y dyfodol gael eu hamcangyfrif o'r gwaed i fyny.

- Cytunwyd bod addysg yn annatod i'r newid diwylliannol a ragwelir gan y Cynllun. Roedd y Cynllun yn cynnwys cyfeiriadau penodol at yr angen i wreiddio entrepreneuriaeth mewn addysg ar bob lefel – trwy hyfforddiant athrawon yn ogystal â thrwy bartneriaethau effeithiol rhwng addysg a busnesau lleol. Roedd y cwricwlwm newydd, sy'n gysylltiedig â gwaith, yn cynnig cyfle i wneud cynnydd heb greu gwaith ychwanegol i athrawon e.e. gellid cynnwys gweithgareddau sy'n gysylltiedig â menter, megis gweithgareddau adeiladau tîm, yn y ffordd y byddai'r cwricwlwm yn cael ei ddarparu.

- Cafodd yr egwyddorion cyffredinol yn y Cynllun eu derbyn, ond teimlid bod llawer o waith i'w wneud o hyd wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu manwl y byddai ei angen ar gyfer y rhaglen Amcan 1.

- Yngln â gweithredu'r Cynllun, teimlid nad oedd y Cynllun yn ddigon manwl. Cydnabuwyd bod y rhan fwyaf o'r cyllid yn debygol o ddod trwy'r Cyllid Strwythurol ac felly yn eu hanfod, materion ar gyfer y Pwyllgor Monitro oedd cwestiynau yngln â gweithredu. Ar lefel fwy strategol fodd bynnag, pwysleisiwyd yr angen clir am gydlyniant gan fod darpariaeth yn ddibynnol ar gysylltiadau cydlynus rhwng addysg orfodol, Addysg Bellach

ac Uwch a datblygiad economaidd a chymunedol. Cynigiodd y Cadeirydd anfon y Cynllun i'r Pwyllgorau Addysg Cyn 16 ac Ôl 16. **[Cam gweithredu: Cadeirydd]**

- Cytunwyd y dylai'r WDA barhau i ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ar gyfer y grp llywio.

- Roedd aelodau yn pryderu nad oedd y targedau (gan gynnwys newid diwylliannol) yn ddigon mesuradwy ac nad oedd mater o berchenogaeth ar weithrediadau'r cynllun wedi'i drafod yn llawn. Roedd angen cysylltiad clir rhwng gweithrediadau a chyflawni targedau. Byddai angen ystyried hyn wrth i'r cynllun gweithredu gael ei lunio.

- Roedd croeso i'r newyddion y byddai Amcanion 2 a 3 yn ogystal ag Amcan 1, yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun y dyfodol. Cydnabuwyd y byddai angen sefydlu partneriaeth cynllun gweithredu Amcan 1 yn fuan.

- Cydnabuwyd pwysigrwydd gofal plant fel busnes ac fel modd o gynorthwyo entrepreneuriaid sy'n ferched. Roedd cynigion manylach ar gael yn yr Atodiad i'r Cynllun.

- Nodwyd nad oedd y Ganolfan Entrepreneuriaeth Gymunedol, a gynigiwyd mewn fersiwn cynharach o'r cynllun, wedi'i chynnwys yn y fersiwn terfynol o ganlyniad i ymatebion i ymgynghoriadau.

- Yngln â'r cynigion penodol ar gyfer merched mewn busnes, esboniodd y Grp y pwynt canlynol: er mai un o egwyddorion pendant y Cynllun oedd bod entrepreneuriaeth yn bwysig i holl aelodau'r gymdeithas yng Nghymru, roedd rhai grwpiau (gan gynnwys merched) yn wynebu rhwystrau ychwanegol yr oedd yn bwysig ymdrin â nhw.

- Cydnabuwyd y cyfraniad y mae lleiafrifoedd ethnig yn ei wneud i entrepreneuriaeth yng Nghymru, a byddai hyn yn cael ei drafod yn y cynllun gweithredu.

**Crynodeb y Cadeirydd**

4.3 Wrth grynhoi, nododd y Cadeirydd y pwyntiau canlynol:

- Roedd y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Cynllun mewn egwyddor. Fodd bynnag, roedd heb benderfynu hyd yn hyn ynglþn â pha lefel o adnoddau y dylai'r Cynllun ei denu. Byddai hyn yn agored i archwiliad pellach ar sail targedau manylach a strategaeth weithredu wedi'i datblygu'n llawn. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried y cynllun gweithredu ym mis Medi ( er y cydnabuwyd mai'r Pwyllgorau Monitro fyddai'n gyfrifol am benderfyniadau o safbwynt y rhaglenni Cyllid Strwythurol). **[Cam gweithredu: Grp Llywio, Cadeirydd a Chlerc]**

- Diolchodd y Pwyllgor i'r Grp Llywio am ei waith wrth gynhyrchu'r Cynllun. Teimlai aelodau y dylai barhau i arwain y fenter, ond byddai angen ehangu ei aelodaeth i

fodloni’r meini prawf 1:1:1 ar gyfer Cyllid Strwythurol. Yn bennaf, dylai geisio sicrhau mwy o gyfraniad gan aelodau o gymunedau pobl dduon ac Asiaidd.
- Dylai’r WDA barhau i ddarparu’r ysgrifenyddiaeth i’r grp llywio.

- Roedd cydlyniant ar draws dyletswyddau’r Cynulliad, ar draws lefelau addysg, a rhwng busnes ac addysg yn hanfodol er mwyn darparu’r Cynllun yn llwyddiannus. Byddai’r Cadeirydd yn cyfeirio’r Cynllun at y Pwyllgorau Addysg Cyn 16 ac Ôl 16, y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygiad Gwledig, a’r Pwyllgorau Cyfleoedd Cyfartal yn ogystal â’r Partneriaethau Busnes a’r Sector Gwirfoddol er gwybodaeth ac ar gyfer sylwadau. **[Cam gweithredu: Cadeirydd]**

**Eitem 5: Materion yn ymwneud â Chyllid Strwythurol (Amcanion 1 a 3)**

5.1 Gohiriwyd yr eitem hon.

**Eitem 6: Llwybr tuag at Ffyniant**

6.1 Gwnaed cywiriad i EDC-07-00 (p.6). Roedd y ‘Cynghorwyr busnes personol’ y cyfeiriwyd atynt ym mhrosiect 12 wedi’u labelu yn anghywir ac enw’r prosiect hwn mewn gwirionedd oedd ‘Canolfannau rhagoriaeth – rheolwyr masnachol’.

6.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor yr argymhellion a wnaed yn EDC-07-00 (p.6) yn ffurfiol. Cytunwyd y dylid trafod y gyllideb ymhellach mewn cyfarfod yn y dyfodol

pan fyddai’r Pwyllgor yn ystyried sut i wario’r £1miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn y cyhoeddiad Cyllideb. **(Cam gweithredu: Cadeirydd a Chlerc)**

**Eitem 5: Materion Cronfeydd Strwythurol**

**Y Diweddaraf**

7.1 Y sefyllfa gyfredol o ran Dogfen Raglen Weithredol Amcan 3 oedd bod ymateb dros dro wedi'i gyhoeddi gan y Comisiwn; a byddai'r Pwyllgor yn cael cyfle i drafod y ddogfen ddiwygiedig ar 17 Mai, a byddai'n cael ei hystyried yn y sesiwn llawn ar 24 Mai. Roedd swyddogion yn ffyddiog y gellid datrys unrhyw faterion oedd heb eu penderfynu'n gyflym er mwyn galluogi i Amcan 3 gael ei lansio yn ôl yr un amserlen fras ag Amcan 1.

7.2 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Byddai'r rhaglenni Amcan 2 a 3 yn cael eu rheoli gan yr asiantaeth newydd hefyd.

- Byddai Pwyllgor Monitro i Gymru yn ogystal â phwyllgor i'r DU ar gyfer Amcan 3. Roedd y Comisiwn wedi cytuno ar y ddogfen 'Fframwaith cymorth cymuned'. Byddai hon yn cael ei defnyddio i gynorthwyo Amcan 3 gan y Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd. Byddai pwyllgor monitro'r DU am weld gwerthusiad gan y pwyllgorau monitro ar wahân yng Nghymru, yr Alban a Lloegr. Byddai Cymru'n defnyddio'r pwyllgorau monitro eraill fel meincnodau. Byddai gan y Pwyllgorau Monitro gwahanol eu rhaglenni eu hunain ac yn penderfynu ar eu dyraniadau eu hunain. Er hynny, byddai angen iddynt egluro'r rhesymeg y tu ôl i rai penderfyniadau o ran y dadansoddiad sylfaenol a'r NEDS drafft.

- Byddai cyfansoddiad Pwyllgor Monitro Cymru'n seiliedig ar yr egwyddor 1/3: 1/3: 1/3 a byddai cynigion am aelodaeth yn cael eu hanfon at y Pwyllgor cyn gynted ag y byddent ar gael.

- Roedd aelodau'n croesawu'r pwyslais ar gyfleoedd cyfartal yn y ddogfen hon.

- Er nad oedd partneriaid cymdeithasol wedi bod yn gyfranogwyr pwysig i raglenni Cronfa Strwythurol Cymru'n draddodiadol, rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor bod y rôl bwysig oeddynt yn ei chwarae mewn partneriaethau cenedlaethol ac atodol yn cael ei gydnabod yn awr. Nid oedd cronfa debyg i'r gronfa DFEE yng Nghymru i annog partneriaethau rhwng cyflogwyr ac undebau ond roedd y TUC o'r farn bod gwir angen iddynt gael cynrychiolaeth yn y rhaglenni i gynorthwyo undebau a chyflogwyr weithio'n fwy effeithiol â'i gilydd. Roedd cyfle i adeiladu ar y cronfeydd dysgu am oes sydd ar gael ar hyn o bryd ac roedd swyddogion wrthi'n trafod hyn gyda'r bartneriaeth ehangach.

- Dylid cael darlleniad uniongyrchol ym mhob rhaglen Ewropeaidd a rhwng pwyllgorau monitro'r DU a Chymru i sicrhau bod cynllun gweithredu'r DU yn adlewyrchu blaenoriaethau Cymru hefyd. Yn ogystal â'r cytundeb bras hwn, byddai gan bwyllgorau monitro ryddid i fynegi blaenoriaethau lleol.

- Roedd y Comisiwn yn credu bod angen integreiddio'r profiad a gafwyd gyda Mentrau Cymuned y Comisiwn Ewropeaidd. Byddai rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn. Roedd y DFEE wedi cyhoeddi adroddiad ar Fentrau Cymuned a gobeithiwyd cynnwys hwn yn Amcanion 1 a 3 ar ôl ei ddosbarthu'n fwy eang i'r partneriaethau.

- Nid oedd yn ymddangos yn bosibl i gyfuno cronfeydd cymorth technegol rhwng rhaglenni, ond byddai'r mater yn cael ei godi gyda'r Comisiwn.
- Roedd y Comisiwn yn dal i fod yn anfodlon gyda'r cynnig y gallai cyrff atebol wneud cynigion i'w cynlluniau gweithredu eu hunain. Roedd wedi gweld atebolrwydd gwael mewn cyrff atebol eraill. Roedd swyddogion yn ceisio perswadio'r Comisiwn na fyddai hyn yn digwydd gydag Amcan 1 yng Nghymru. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor y byddai amddiffyniadau'n bodoli.

**Adroddiad cynnydd gweithredu**

- Eglurwyd y dylai'r 'cyrff amrywiol' a ddylai ddechrau partneriaethau i ddatblygu'r cynigion ar gyfer Cynllluniau Gweithredu Rhanbarthol ymhellach (cyfeirir atynt ar dudalen 2, paragraff 11 y papur) gynnwys consortia Cynghorau Hyfforddi a Menter , Addysg Bellach ac Uwch (gan ragweld y byddai sefydliadau eraill yn ymuno).

- Byddai'r partneriaethau eu hunain yn penderfynu pwy fyddai'r corff blaen a mynd â'r cynigion hyn at y pwyllgor monitro. Er na ellid gwneud penderfyniad pendant yngln â phwy fyddai'r cyrff blaen tan 3 Mai, cytunodd swyddogion i ystyried rhoi gwybod i'r cyhoedd pa sefydliadau fyddai'n debygol o arwain gyda phob pecyn.

- Mynegodd aelodau eu rhwystredigaeth gyda'r diffyg gwybodaeth am beth oedd yn digwydd ar lefel leol. Roedd pryder yngln â'r diffyg cynnydd mewn rhai meysydd. Roeddent o'r farn bod mis Mai yn ormod o amser i ddisgwyl am y wybodaeth hon, o ystyried eu bod wedi pwysleisio’n gyson yr angen am wybodaeth am bartneriaethau lleol. Dywedodd swyddogion ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i drefniadau gael eu cadarnhau. Ond credai aelodau y dylai'r fframwaith ar gyfer partneriaethau sylfaenol gael eu gweithredu o leiaf. Gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth am gyflwr partneriaethau ar hyn o bryd ac i gael gweld yr arweiniad a gyhoeddwyd gan WLGA. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

- Cadarnhaodd John Clarke y byddai WEFO yn recriwtio'r swyddi gweigion gyntaf trwy weithdrefnau arferol y Cynulliad. Os nad ellid dod o hyd i'r bobl gyda'r sgiliau angenrheidiol o fewn y Cynulliad (ac mae'n debyg mai dyna fyddai’r sefyllfa) byddai recriwtio allanol yn digwydd.

- Roedd y llinell gymorth wedi derbyn nifer gyson o alwadau, heb fod yn rhy brysur. Os oedd aelodau'n ymwybodol o achosion lle'r oedd pobl wedi cael anawsterau'n derbyn gwybodaeth gan y llinell gymorth, dylent ysgrifennu at John Clarke gyda manylion a byddai ef yn rhoi sylw i'r sefyllfa. Roedd John Clarke yn cyfaddef bod y llinell gymorth yn gallu ymdopi'n well gyda galwadau Cymraeg ym Machynlleth nag ym Mharc Cathays, ond roedd yn rhoi sylw i'r broblem.

**Graham Meadows**

7.3 Croesawodd y Cadeirydd Graham Meadows, Cyfarwyddwr a Philip Owen o Fwrdd Cyfarwyddwyr Rhanbarthol y Comisiwn Ewropeaidd. Eglurodd bod y Pwyllgor yn arbennig o awyddus i ofyn cwestiynau yngln â rôl y Cynulliad o ran y Pwyllgor Monitro, a rôl y Comisiwn, wrth i'r rhaglen ddatblygu. Hefyd, roedd gan aelodau ddiddordeb gwybod sut y gellid defnyddio cymorth technegol i ddatblygu rhaglenni a sut allai'r Cynulliad wthio'r rhaglenni yn eu blaenau, gan ganiatáu dull hyblyg ar gyfer gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i gwrdd â'i

amcanion economaidd ei hun dros gyfnod y rhaglen.

7.4 Eglurodd Graham Meadows y byddai cyfarfod pellach rhwng swyddogion a'r Comisiwn ar 30 Mawrth ac erbyn 31 Mawrth roedd yn ffyddiog y byddai cytundeb wedi'i wneud yngln â’r rhan fwyaf o’r testun. Roedd y Comisiwn angen eglurhad yngln â'r trefniadau gweithredu er mwyn sicrhau bod biwrocratiaeth ragweithiol ddigonol a chyllid digonol ar gael i ddarparu'r rhaglen.

7.5 Teimlai'r Comisiwn bod Cymru wedi pennu rhaglen uchelgeisiol, yn arbennig wrth osod targed i gynyddu GDP Cymru'n uwch na'r cyfartaledd Ewropeaidd oherwydd bod cyfartaledd y GDP Ewropeaidd y tu hwnt i reolaeth Cymru. Roedd gwerth am arian y rhaglen yn dda iawn. Oherwydd mai dwy rhan o dair yn unig o Gymru oedd y rhaglen yn ei chynnwys, gallai'r Cynulliad roi ei hun mewn sefyllfa fregus pe bai'n gadael i'r rhaglen Amcan 1 fonopoleiddio'i sylw.

7.6 Pwysleisiodd Graham Meadows mai dogfen strategol oedd yr SPD, ac oherwydd hyn, ni ellid disgwyl iddi ragweld digwyddiadau dros y saith mlynedd nesaf. Awgrymodd y dylid cynnwys arolwg blynyddol yn y mecanwaith darpariaeth. Ni ddylai'r arolwg blynyddol hwn fod yn nwylo'r Comisiwn oherwydd bod angen i’r Cynulliad bennu ei strategaeth ei hun yn seiliedig ar ei flaenoriaethau gwleidyddol ei hun ar gyfer Cymru i gyd.

7.7 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Roedd pryder bod dau fesur, ynni adnewyddadwy ac isadeiledd TGCh, wedi'u gadael allan o ddrafft gwreiddiol yr SPD. Eglurodd Graham Meadows mai nod y rhaglen oedd creu gwaith a gwella ansawdd economaidd bywydau pobl. Dywedodd fod y Comisiwn yn awyddus i sicrhau bod cronfeydd CE yn gwneud i bethau ddigwydd na fyddai'n digwydd fel arall. Y teimlad cyffredinol oedd y byddai projectau isadeiledd gan sefydliadau sector preifat mawr yn mynd ymlaen beth bynnag. Er hynny, gellid cynorthwyo projectau fel hyn pe bai'n amlwg na fyddai'r project yn mynd ymlaen heb gymorth.

- Roedd gan y Comisiwn bryderon yngln â gallu cyrff atebol i roi cynigion i'w cynlluniau gweithredu eu hunain. Teimlwyd y byddai cyrff fel hyn yn farnwr a rheithgor ar eu ceisiadau ac y byddai'n well pe bai'n ofynnol i gyrff atebol gyflwyno'u cynlluniau i awdurdod uwch am gymeradwyaeth (y Pwyllgor Monitro mae'n debyg).

- Roedd yn bwysig bod y Rhaglen yn gweithio tuag at flaenoriaethau'r Cynulliad ar gyfer Cymru i gyd. Roedd gan wleidyddion rôl bwysig i'w chwarae yn hyn o beth.

- Cadarnhaodd Graham Meadows y gellid gwneud addasiadau bach, annadleuol, i'r rhaglen wrth iddi fynd ymlaen trwy'r broses arolygu dactegol flynyddol. Er hynny, ni fyddai'r Comisiwn yn edrych yn ffafriol ar addasiadau'n gynnar iawn yn y rhaglen.

- Pwysleisiodd Graham Meadows bwysigrwydd cael dechrau effeithiol i'r rhaglen. Yn aml, gallai gymryd rhwng chwech a naw mis o'r amser yr oedd rhaglen wedi cael caniatâd i'w gweithredu i'r amser roedd y gwariant yn digwydd mewn gwirionedd. Byddai angen i'r Ysgrifenyddiaeth oedd yn gyfrifol am gyllid Ewropeaidd fod yn ragweithiol iawn i sicrhau bod gwaith yn cychwyn yn syth ar ôl i'r llythyr yn cymeradwyo'r rhaglen gael ei dderbyn. Nododd nad oedd y Comisiwn yn awyddus i weld arian yn cael ei adfachu oherwydd byddai'n golygu nad oedd ei bolisi ei hun wedi gweithio.

- Os nad oedd y rhaglen yn cael dechrau da a bod arian yn cael ei adfachu i'r Comisiwn ym 2002, roedd perygl y byddai hyn yn troi i fod yn ddigwyddiad blynyddol oherwydd pe na bai arian blwyddyn yn gallu cael ei wario mewn tair blynedd byddai'n anodd gwario arian ymrwymedig blwyddyn mewn blwyddyn. Pwysleisiodd Graham Meadows wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig cael dechrau da i'r rhaglen a chanolbwyntio ar ddarpariaeth o ansawdd. Os na ellid gwneud hyn byddai ansawdd yn gorfod cael ei aberthu wrth i weinyddwyr y rhaglen ganolbwyntio'n llwyr ar wario i geisio osgoi'r adfachiad ar ddiwedd y flwyddyn. O ganlyniad, roedd y Comisiwn yn awyddus iawn i'r cyfnod 2000-2002 gael ei reoli'n drylwyr, bod digon o gyllid cyfatebol i raglenni ddatblygu ac nad oedd y tair blynedd cyntaf yn cael eu defnyddio fel cyfnod hamddenol fel iawn am fwrlwm y pedair blynedd olaf. Hefyd, roedd yn bwysig bod y rhaglen yn cael ei chychwyn yn dda fel na fyddai'n colli credadwyaeth gyda'r bobl yr oedd i fod i'w chynorthwyo.

- Roedd yn rhaid i Gymru orffen cytundebau a lofnodwyd dan y rhaglenni strwythurol blaenorol hefyd yn ystod cyfnod 2000-2002.

- Gofynnwyd i Graham Meadows am ei farn yngln â'r targedau. Dywedodd ei fod yn meddwl bod y targedau'n gryn her.

- O ran monitro, dylai'r Cynulliad ddarparu'r fframwaith strategol ar gyfer y rhaglen, dylai'r Pwyllgor Monitro arolygu polisi, gan weithredu fel pont rhwng rheolaeth y rhaglen a'r projectau eu hunain. Ni ddylai'r Pwyllgor Monitro ymwneud â gweinyddu'r rhaglen.

- Nid oedd Graham Meadows yn credu bod angen symud cronfeydd rhwng projectau yn y ddwy flynedd gyntaf oherwydd y byddai digon o gyllid ar gyfer pob blaenoriaeth ar ddechrau'r rhaglen. Efallai y byddai angen newid dosraniad cronfeydd rhwng rhaglenni wrth i'r rhaglen ddatblygu i adlewyrchu'r sefyllfa economaidd a blaenoriaethau gwleidyddol y Cynulliad. Byddai hyn yn bosib hanner ffordd drwy'r rhaglen. Byddai'r arolwg tactegol blynyddol yn amlygu sefyllfaoedd lle gallai fod angen newid mewn gwariant wrth i'r sefyllfa economaidd ddatblygu.

- Roedd y Comisiwn yn hapus gyda'r sefyllfa'n ymwneud ag EAGGF.

- Roedd yn bwysig sicrhau bod y rhaglen Amcan 1 o fewn cyrraedd hawdd i fusnesau bach. Dylid creu cynlluniau'n canolbwyntio ar fusnesau bach, er enghraifft cronfeydd benthyciadau. Cyfeiriodd Graham Meadows at yr arferion da a ddatblygwyd yng Nglannau Merswy a nododd bod busnesau bach yn gweithio'n well gyda phobl a oedd yn deall eu sefyllfaoedd yn hytrach na gweinyddwyr.

- Dylid trin twristiaeth fel mater sy'n berthnasol i sawl maes yn y rhaglen oherwydd y byddai hyn yn lleihau'r perygl i dwristiaeth fethu â chael cyllid Ewropeaidd. Roedd posibilrwydd o godi arian i dwristiaeth trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig.

- Eglurodd Graham Meadows ei bod yn bosibl gwneud rhaglenni'n atyniadol i'r bobl oedd wir angen cymorth gan gyllid Ewropeaidd. Yn y gorffennol roedd y Comisiwn wedi bod yn ymwybodol bod ffurflenni cais yn rhy faith a chymhleth yn aml a bod amseroedd ymateb yn rhy hir hefyd. Roedd hyn yn llesteirio ymgeiswyr. Roedd ymdrech arbennig wedi'i gwneud yn Ne Swydd Efrog i alluogi pobl i gael at gyllid. Sefydlwyd cronfa'n cynnwys arian cyfatebol ymlaen llaw a gallai pobl gyffredin wneud cais am grantiau hyd at 100%, roedd y ffurflen gais ar un daflen A4, roedd yr amser i ymateb rhwng tair a phedair wythnos ac roedd ymrwymiad cytundebol i 98% o geisiadau gael eu cymeradwyo. O ganlyniad gordanysgrifiwyd y gronfa i ffactor o wyth. Roedd angen mwy na dweud bod y rhaglen yn agored i fusnes ac yn barod i dderbyn syniadau ac roedd angen i'r gweinyddwyr fod yn rhagweithiol a sicrhau ei bod yn haws i bobl gael at y rhaglen.

**Cynigion gwerthuso**

7.8 Trafodwyd y cynigion am werthusiad yn EDC-07-00(p4W), a oedd yn seiliedig ar fodel Iwerddon. Eglurodd Graham Meadows mai amcan y Pwyllgor Monitro oedd arolygu'r rhaglen. Ni fyddai'n cymryd rhan wrth werthuso a oedd amcanion strategol y Cynulliad ar gyfer Cymru'n cael eu cyflawni. (Roedd gwahaniaeth rhwng y sefyllfa yn yr Iwerddon a Chymru oherwydd bod 100% o'r boblogaeth yn cael ei chynnwys yn Amcan 1 yn yr Iwerddon o'i chymharu â dwy rhan o dair o'r boblogaeth yng Nghymru.)

7.9 Nid oedd Graham Meadows yn sir a fyddai'r cynigion yn gymwys ar gyfer cymorth technegol. Byddai'n bosibl cael cymorth technegol ar gyfer y rhaglenni Amcan unigol. Gellid trafod hyn gyda'i olynydd.

10. Cytunodd Graham Meadows y byddai'n ddefnyddiol cael unigolyn annibynnol i werthuso'r rhaglen oherwydd y byddai'n sicrhau bod barn fwy gwrthrychol yn cael ei chymryd. Cytunodd Ysgrifennydd y Cynulliad i ddychwelyd at y Pwyllgor gyda chynigion ar sut fyddai'r Pwyllgor yn ymwneud â goruchwylio'r rhaglenni Ewropeaidd ac a oedd yn briodol i ddefnyddio pobl o'r tu allan fel gwerthuswyr. Byddai'r papur yn cynnwys syniadau ar sut i dynnu popeth at ei gilydd a manylion

am yr adnoddau gofynnol. **(Gweithredu: Ysgrifennydd y Cynulliad)**

7.11 Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i Graham Meadows am fynychu'r cyfarfod ac am ei gyfraniad defnyddiol. Rhoddodd ei dymuniadau gorau iddo yn ei swydd newydd.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

**Mawrth 2000**